

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	13 Mehefin 2019
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau / Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr Adroddiad:	Swyddog Cynllunio a Pherfformiad
Teitl:	Effeithiolrwydd Asesiadau o'r Effaith ar Les

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gweithrediad ac effeithiolrwydd ein dull ar gyfer asesu effaith ein penderfyniadau, yn defnyddio ein dull Asesu'r Effaith ar Les ar y we.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth am effeithiolrwydd asesiadau o'r effaith ar les. Mae ein dull wedi'i adolygu unwaith ond nid yw wedi bod yn destun craffu ffurfiol.

3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn trafod yr adroddiad ac yn ystyried sut y gall aelodau herio a chraffu ar asesiadau effaith ar les yn effeithiol.

4. Manylion yr adroddiad

Cefndir

Beth yw gwefan Asesu'r Effaith ar Les Sir Ddinbych?

- 4.1 Mae ein gwefan Asesu'r Effaith ar Les yn ddatrysiad a ddyluniwyd gennym gyda'n staff i'n helpu ni wella cynaliadwyedd ein dull o ddarparu newid, a manteisio ar bob cyfle i helpu ein prosiectau gael effaith gadarnhaol.
- 4.2 Cafodd y wefan Asesu'r Effaith ar Les ei datblygu yn 2015 gan swyddogion ac aelodau Cyngor Sir Ddinbych, ynghyd â chefnogaeth lechyd Cyhoeddus Cymru. Bu i ni greu datrysiad pwrpasol sy'n cysylltu ymchwil a thystiolaeth (gan gynnwys asesiad lles lleol ein Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus), ac mae'n wefan hawdd ei defnyddio a rhyngweithiol. Mae'n wefan gwbl unigryw ac rydym ni'n credu mai hwn yw'r dull ar-lein cyntaf o'i fath yn y sector cyhoeddus i asesu effaith. Mae'n offeryn sgrinio effaith sy'n cefnogi pobl drwy'r broses.
- 4.3 Mae'r dull yn cynnwys cyfres o gwestiynau heriol sy'n peri i rywun feddwl ac yn gofyn i bobl fyfyrto ar eu dulliau a chanfod ffyrdd i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'n gofyn i ddefnyddwyr ystyried beth fydd yr effaith debygol ar draws ystod o themâu a materion (gan gynnwys Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol,

Deddf Cydraddoldeb, Deddfau Amgylcheddol a Chynllunio, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y Safonau Iaith ac ati).

- 4.4 Mae'r wefan yn cynhyrchu adroddiad ar ffurf hawdd ei ddefnyddio (gweler Atodiad 1). Mae gan y wefan lefel uchel o hunan-ffurfweddu. Mae hyn yn golygu y gallwch chi ddiwygio elfennau o'r dull i ddiwallu'ch anghenion. Mae'r wefan hefyd yn ddwyieithog.

Pam ein bod ni wedi creu dull newydd?

- 4.5 Roedd dau reswm dros ddatblygu dull newydd ar gyfer asesu'r effaith. Yn gyntaf, roedd yn rhaid i'r Cyngor, mewn ymateb i ddeddfwriaeth, ddatblygu sawl dull gwahanol i asesu'r effaith. Y mwyaf sylweddol o'r rhain yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd safon y rhain yn amrywio, ac nid oeddynt yn cael eu gwerthfawrogi na'u trafod yn fanwl. Anaml iawn y byddai'r canfyddiadau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn arwain at newid y dull. Yn ail, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (" y Ddeddf") wedi cyflwyno dyletswydd statudol i ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau ar les cenedlaethau'r dyfodol.

Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud?

- 4.6 **Cynigion gwell:** Drwy brofi ein barn yn gynnar rydym ni'n gallu hepgor effeithiau negyddol neu ganfod ffyrdd i'w lliniaru. Rydym ni wedi gweithredu'r dull hwn ar gyfer sawl prosiect, gan gynnwys prosiect llety sipsiwn a theithwyr, holl brosiectau'r cynllun corfforaethol a phrosiectau lefel gwasanaeth fel cludiant i'r ysgol.
- 4.7 **Gwneud penderfyniadau:** Mae aelodau bellach yn derbyn gwell gwybodaeth a gwybodaeth fwy cytbwys er mwyn trafod a beirniadu cynigion cyn gwneud penderfyniadau.
- 4.8 **Atebolrwydd:** Mae preswylwyr yn derbyn gwybodaeth dryloyw a manwl er mwyn herio ein penderfyniadau. Ac maen nhw wedi, e.e. yr Asesiad o'r Effaith ar Les a gynhyrchwyd mewn perthynas â'r cynnig ar gyfer gardd gymunedol Llangollen.
- 4.9 **Cydweithio ac integreiddio:** Gallwn brofi ein barn ar draws ystod o faterion a gallwn weithio gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid i asesu effaith ein cynigion; mae'r wefan yn wych ar gyfer hwyluso hyn. Mae'r wefan bellach yn hwyluso dull cydweithredol lle gall mwy nag un unigolyn fewngofnodi i olygu pethau. Rydym ni wedi cynnal asesiadau effaith cydweithredol ar gyfer mentrau gwaith cymdeithasol rhanbarthol, y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig (prosiect cynllun corfforaethol) ac mae mwy ar y gweill.

Gwybodaeth Rheoli

- 4.6 Mae swyddogion wedi croesawu'r dull newydd. Mae dros 500 o asesiadau o'r effaith wedi'u cynnal ers mis Medi 2016. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gofyniad i gynnal asesiad o'r effaith fel rhan o'n methodoleg rheoli prosiectau. Mae llawer o swyddogion yn defnyddio'r wefan pan nad oes yn rhaid iddynt wneud hynny; i brofi eu meddwl neu i ganfod ffyrdd i fanteisio ar gyfleoedd i wella cynigion. A dyma'n union yr oedd arnom ni eisiau ei weld.

- 4.7 Yn wreiddiol nid oedd datblygiad y wefan yn cynnwys creu swyddogaeth 'fonitro' (h.y. swyddogaeth i roi gwybod i ni pa feysydd sy'n dueddol i gael eu heffeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol, sgoriau datblygu cynaliadwy ac ati), ond bu i ni ddatblygu dangosfwrdd yn defnyddio PowerBI – rhaglen ar-lein a ddefnyddir yn aml gan y Cyngor i ddadansoddi perfformiad.
- 4.8 Fodd bynnag, cafwyd trafferthion wrth ddefnyddio PowerBI. Mae'r datblygwyr yn diweddarau'r rhaglen yn gyson ac mae hynny wedi golygu bod ein dangosfwrdd yn annibynadwy. Yn fras, ni allwn ymddiried ynddo. Byddwn yn edrych ar ddewisiadau i ddatrys y materion hyn.

Ansawdd

- 4.9 Rydym ni wedi croesawu'r dull newydd ac wedi gweld newid diwylliannol go iawn. Fodd bynnag, mae yna ddigon o le i wella. Rydym ni wedi adolygu'r wefan gyda'n partneriaid unwaith ac wedi cynhyrchu ail fersiwn.
- 4.10 Ers ei lansio, rydym ni wedi sylwi ar y tueddiad dynol naturiol tuag at dueddiad optimistaidd h.y. gweld pethau'n fwy ffafriol a goramcangyfrif effaith gadarnhaol neu amcangyfrif effaith negyddol yn rhy isel. Rydym ni wedi gwneud llawer o waith ar hyn i gefnogi swyddogion i leihau'r tebygolrwydd o dueddiadau optimistaidd. Er enghraifft, rydym ni wedi mynychu Cynhadledd Arweinyddiaeth Sir Ddinbych ac ychydig yn ôl bu i ni baratoi sgwrs fer am dueddiadau optimistaidd wrth asesu'r effaith, [ar gael ar YouTube](#), ar gyfer cynhadledd flynyddol lechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'r dull wedi'i nodi yn [arfer da gan Swyddfa Archwilio Cymru](#).
- 4.11 Mae'r agweddau o'r Asesiad o'r Effaith ar Les sydd wedi gweithio'n dda yn cynnwys y gofyniad newydd i bawb ystyried effaith cynnig ar gydlyniant cymunedol. Mae cydraddoldeb yn dal yn faes heriol i asesu'r effaith, sy'n synnu rhywun oherwydd bod asesu'r effaith ar gydraddoldeb wedi bod yn ddyletswydd ac yn nodwedd o'r broses wneud penderfyniadau ers sawl blwyddyn.
- 4.12 Yn fuan iawn wedi lansio'r wefan Asesu'r Effaith ar Les, bu i ni sefydlu Grŵp Cyfeillion Beirniadol. Mae'r grŵp yn adolygu asesiadau effaith i wella ansawdd a hyder ac fe gynhyrchir adroddiad gydag argymhellion a rennir gyda, fel rheol, y rheolwr prosiect (gellir gweld enghraifft o adroddiad diweddar yn Atodiad 2). Rydym ni wedi cynnal adolygiadau o Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer nifer o gynigion, gan gynnwys:
- Polisi Cludiant i'r Ysgol
 - Strategaeth Rheoli Asedau
 - Glan y Môr y Rhyl, Cam 1b
 - Cynllun Rhanbarthol Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru
 - Modelau Darparu Amgen Hamdden
 - Prosiect Llety Sipsiwn a Theithwyr
 - Prosiect Tai Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych
 - Prosiect rheoli gwastraff

4.13 Mae ansawdd Aseidiadau o'r Effaith ar Les yn dal yn amrywio. Weithiau, ac yn achlysurol o anghenraid, cynhelir Aseidiadau o'r Effaith ar Les gan un person ar y funud olaf. Mae ansawdd y craffu ar Aseidiadau o'r Effaith ar Les gan fyrddau a phwyllgorau'r Cyngor yn amrywio. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i ddeall effaith ein penderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol. Mae arnom angen cefnogaeth aelodau i sicrhau y ceir herio effeithiol.

Y Dyfodol

- 4.14 Rydym ni wedi arddangos ein dull i swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddwywaith ac wedi derbyn adborth cadarnhaol a heriol. Rydym ni hefyd wedi rhoi cyflwyniad i bartneriaid ar draws y rhanbarth, ac mae gan rai cyrff cenedlaethol ddiddordeb mewn canfod mwy am ein dull.
- 4.15 Rydym ni'n ystyried gwneud fersiwn o'n gwefan ar gael i eraill ei brynu a'i ddefnyddio gan eu sefydliadau eu hunain.
- 4.16 Mae ffurfioli rôl y Grŵp Cyfeillion Beirniadol yn flaenoriaeth ar gyfer y Tîm Cynllunio Strategol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Ein bwriad yw cynnal adolygiad ôl-weithredu ar gynigion sydd wedi'u gweithredu, i weld a oedd ein Hadolygiad o'r Effaith ar Les yn gywir. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am gefnogaeth gan ein tîm Iechyd Cyhoeddus Cymru lleol pan fydd eu cyfranogiad yn fuddiol.
- 4.17 Mae Deddf Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud asesu'r effaith ar iechyd yn orfodol dan amgylchiadau penodol. Nid oes rheoliadau na chanllawiau wedi'u cyhoeddi eto ac rydym ni'n monitro hyn i sicrhau y gellir rheoli unrhyw ofynion ychwanegol/newydd.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae Asesu'r Effaith ar Les yn ategu ein blaenoriaethau corfforaethol.

6 Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae hwn yn bapur trafod ac felly ni cheir costau cysylltiedig.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesu'r Effaith ar Les.

8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Hwn yw adolygiad ffurfiol cyntaf y Pwyllgor Craffu.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae hwn yn bapur trafod ac felly ni cheir costau cysylltiedig.

10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risg yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Mae Adran 7.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu y dylai'r gwasanaeth Archwilio adolygu neu archwilio penderfyniadau a wnaed neu gamau a

gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor,
boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.

Swyddog Cyswllt:

Swyddog Cynllunio a Pherfformiad: Tîm Cynllunio Strategol

Ffôn: 01824 708075